# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 21 GORFFENNAF 2023

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Paul Johnson (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Paul Bevan (Grŵp Llandrillo Menai), Dr Maria Hinfelaar (Prifysgol Wrecsam), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), David Fitzsimon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion yn bresennol -

Awdurdod Lletya:- Dewi A. Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Sion Huws (Dirprwy Swyddog Monitro), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cynaliadwyedd a Datblygiadau), Sara Jones (Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru:- Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf) ac Elgan Roberts (Rheolwr Rhaglen Ynni).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman a John Hawkins (Llywodraeth y DU).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda'r Cynghorydd Gary Pritchard yn dirprwyo;
- Y Cynghorydd Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) gyda'r Cynghorydd Paul Johnson yn dirprwyo;
- Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai) gyda Paul Bevan yn dirprwyo;
- Yana Williams (Coleg Cambria);
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda'r Athro Paul Spencer yn dirprwyo;
- Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda David Fitzsimon yn dirprwyo;
- Iwan Evans (Swyddog Monitro) gyda Sion Huws (Dirprwy Swyddog Monitro) yn dirprwyo.

Croesawodd y Cadeirydd y dirprwyon i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 8 - Cyllid y Cynllun Twf: Proses Newid Prosiectau - Argymhellion Terfynol, am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Mark Pritchard – Prosiect Porth Wrecsam - oherwydd mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam oedd yr ymgeisydd.
- Y Cynghorydd Charlie McCoubrey – Prosiect Stiwdio Cinmel gan Stage Fifty – oherwydd bod y tir ym mherchnogaeth Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy.
- Y Cynghorydd Gary Pritchard – Prosiect Stiwdio Cinmel gan Stage Fifty – oherwydd ei fod, hyd at 30 Mehefin eleni, yn gyflogedig gyda chwmni Rondo Media yng Nghaernarfon, a bod Rondo yn rhannol berchen Stiwdio Aria yn Llangefni.

Nid oeddent yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, a chynghorwyd yr aelodau bod modd iddynt gymryd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio ar y mater. Er hynny, nododd y Cynghorydd Mark Pritchard y byddai'n well ganddo beidio cymryd rhan.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Mehefin, 2023 fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 1

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau) ac ymhelaethodd y rheolwyr rhaglen ar uchafbwyntiau'r rhaglenni unigol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i ddiweddaru.**
2. **Cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan y BUEGC, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Llongyfarchwyd Elgan Roberts ar ei benodiad i olynu Henry Aron fel Rheolwr Rhaglen Ynni a dymunwyd yn dda iddo yn y swydd. Eglurwyd, fel dyrchafiad mewnol, bod hyn yn lleihau rhywfaint ar y capasiti o fewn y rhaglen am gyfnod, ond y byddai hynny'n cael ei reoli dros y misoedd nesaf.

Diolchwyd i'r swyddogion am baratoi'r adroddiad, a nodwyd ei bod yn ddiddorol gweld cynnydd mewn rhai meysydd.

Holodd y Cynghorydd Mark Pritchard a oedd ganddo'r hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio ar y mater gan fod cyfeiriad yn yr adroddiad at Brosiect Porth y Gorllewin,

Wrecsam, sy'n cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mewn ymateb, eglurwyd, er bod yna fuddiant, bod eithriad yn y Cod sy'n caniatáu i'r arweinyddion gymryd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio ar y mater.

Ychwanegodd y Cadeirydd nad oedd yna benderfyniadau i'w gwneud ar brosiectau unigol yn yr achos hwn beth bynnag, gan mai adroddiad cynnydd oedd gerbron y Bwrdd.

Nodwyd na chredid bod modd i Brosiect Porth y Gorllewin, Wrecsam fynd yn ei flaen gan fod arian y Llywodraeth wedi'i dynnu nôl, ac awgrymwyd y dylai'r prosiect gael ei ddiddymu cyn gynted â phosib', fel nad yw swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru yn gwastraffu eu hamser. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Yn dilyn y pryder a fynegwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ynglŷn â'r prosiect hwn, y cyfarfu swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru â swyddogion o Gyngor Wrecsam, ac y deellid bod Cyngor Wrecsam yn gweithio ar gynllun sy'n edrych ar sut y gellir symud y prosiect yn ei flaen.
- Unwaith y bydd y cynllun ar gael, bydd yn cael ei adolygu gan swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru, a phe byddent o'r farn nad oes ffordd hyfyw ymlaen, yna byddai'n rhaid cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd gydag argymhelliad ar y ffordd ymlaen, fel gydag unrhyw brosiect arall mewn sefyllfa gyffelyb.
- Y gallai noddwr y prosiect benderfynu tynnu nôl neu gyflwyno cais i newid, ac eto byddai hynny'n rhywbeth y byddai'n rhaid i'r Bwrdd ei ystyried.
- Na chredid ein bod yn y sefyllfa honno ar y funud, gan fod swyddogion Cyngor Wrecsam yn gweithio ar gynllun ar hyn o bryd.

Pwysleisiodd aelod arall na ddylid rhoi'r gorau i Brosiect Porth y Gorllewin, Wrecsam, ac y dylai Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog fod yn ymwybodol y gallai eu penderfyniad i dynnu'r arian yn ôl beryglu prosiect pwysig iawn o fewn y Cynllun Twf. Holwyd a oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r risg, ac os felly, nodwyd ei bod yn bwysig i'r Bwrdd wybod bod y penderfyniad ar yr adolygiad ffyrdd wedi'i wneud er gwaethaf y mathau yma o risgiau. Mewn ymateb, nodwyd bod swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru wedi cynnal cyfarfodydd briffio anffurfiol gyda'u cysylltiadau yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG ynghylch y sefyllfa'n gyffredinol o ran y Cynllun Twf, ond y deellid bod yr ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru ar fanylion y prosiect penodol hwn yn digwydd yn bennaf drwy Gyngor Wrecsam, gan mai hwy sy'n arwain ar y prosiect.

Nododd y prif swyddog o Gyngor Wrecsam:-

- Bod y Cyngor mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, a'u bod hefyd yn edrych ar gapasiti'r rhwydwaith ffyrdd presennol er mwyn gweld oes modd darparu ar gyfer datblygiad Porth y Gogledd.
- Bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddent, fel rhan o'r penderfyniad ar yr adolygiad ffyrdd, yn edrych ar opsiwn amgen cynaliadwy ar gyfer y rhan yna o Wrecsam, ac roedd y trafodaethau'n parhau ynglŷn â hynny.
- Er bod yr adolygiad ffyrdd wedi creu heriau o ran capasiti, y credai y byddai'n gynamserol i ddiddymu'r prosiect ar hyn o bryd.

Nodwyd bod y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gwneud eu gorau i ddenu buddsoddwyr mawr rhyngwladol i Ogledd Cymru a bod yna lawer o botensial i'r sector breifat fod yn rhan o hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gwaith gyda chwmni Savills, y mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes hefyd yn rhan ohono, wedi amlygu yn gynnar iawn bod yna fuddsoddwyr sylweddol yn chwilio am brosiectau hyfyw ac yn edrych tuag at Ogledd Cymru, nid yn unig rhai o'r buddsoddwyr mwy sydd eisoes yn y rhanbarth, ond hefyd rhai o'r buddsoddiadau

cronfa mwy sy'n awyddus i gefnogi'r agenda ffyniant bro a buddsoddi mewn ardaloedd o angen socio-economaidd, ac y dylem fod yn manteisio arnynt.

- Ar lefel ranbarthol, pe gellid harneisio'r cydweithio er mwyn torri drwodd at rai o'r buddsoddwyr a'r cronfeydd hyn, y gellid dod â llawer mwy o gyllid i Ogledd Cymru, yn ychwanegol at y buddsoddiad sy'n dod drwy'r Cynllun Twf.
- Bod yna gyfle enfawr o ran buddsoddwyr, ac un o'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn aml gan fuddsoddwyr yw pa mor dda yw'r cydweithio yng Ngogledd Cymru.

Holwyd beth oedd amserlen y gwaith gyda Savills. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y byddai'r gwaith yn digwydd dros yr haf ac y gobeithid cynnal digwyddiad o gwmpas dechrau mis Awst i ddod â Savills i'r Gogledd er mwyn rhoi trosolwg iddynt o'r cyfleoedd sydd yma.
- Bod y gwaith yn cael ei arwain gan Nick Bennett, sy'n Ogleddwr, ac yn deall y rhanbarth yn dda iawn, yn ogystal â deall gwleidyddiaeth a'r maes buddsoddi.
- Y disgwylid y byddai'r cwmni yn adrodd yn ôl ar ganlyniad y gwaith erbyn diwedd yr haf.

Diolchwyd i'r Rheolwr Gweithrediadau a'i dîm am y gwaith.

## 6. DATGANIAD O GYFRIFON Y BUEGC AM 2022-23

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi A.Morgan (Swyddog Cyllid Statudol). Nodwyd:-

- Bod y Bwrdd, am yr ail flwyddyn, wedi paratoi set gyflawn o ddatganiadau cyfrifon, yn hytrach na'r ffurflen swyddogol a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gan fod Uchelgais Gogledd Cymru yn "gorff perthnasol mwy" yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) gan fod ei incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m.
- Bod y Datganiad Cyfrifon blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.
- Bod y Bwrdd Uchelgais wedi derbyn y wybodaeth mewn ffordd llawer mwy defnyddiol pan gyflwynwyd Sefyllfa Alldro Refeniw a Chyfalaf y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2022/23 ar y 5ed o Fai, a nodwyd y penderfyniad a wnaethpwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw.
- Bod y ffigurau sy'n ymddangos yn nhabl 1 ar dudalen 3 o'r adroddiad yn gyson gyda'r hyn oedd yn yr adroddiad alldro refeniw, a bod yr hyn a welir yn llawer o'r ddogfen yn faterion technegol yn ymwneud â chonfensiynau cyfrifo. Hefyd, yn yr un modd, roedd ffigurau yn ymddangos sy'n adlewyrchu'r gwariant cyfalaf.
- Bod y ffigurau pensiynau yn wahanol eleni. Nodwyd bod gan y Bwrdd Uchelgais ymrwymiad pensiwn o £942,000 ar 31 Mawrth 2022, ond ar 31 Mawrth 2023, bod gwerth yr asedau yn fwy na gwerth yr ymrwymiadau gyda sefyllfa ased net o £572,000. Eglurwyd mai'r rheswm am hyn oedd bod prisiad yr actiwari yn defnyddio bondiau corfforaethol y DG, a gan fod cynnyrch rhain wedi bod yn uchel, roedd wedi arwain at gyfraddau disgownt cyfrifyddu uchel, sy'n rhoi gwerth sylweddol is ar yr ymrwymiadau pensiwn. Eglurwyd ymhellach nad oedd y safon cyfrifo pensiynau yn caniatáu dangos ased ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, felly addaswyd gwerth yr ased ar y fantolen i £0. Disgwylid cyfarwyddiadau pellach gan Archwilio Cymru a CIPFA ar hyn, a phetai angen unrhyw newid i'r driniaeth yn dilyn y cyfarwyddiadau yma, byddent yn cael eu haddasu erbyn y Datganiad Cyfrifon terfynol.
- Bod y Swyddog Cyllid Statudol wedi arwyddo'r cofnodion ar 7 Gorffennaf ac wedi tystio ei fod o'r farn bod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol. Nodwyd bod y Swyddog Cyllid Statudol yn credu bod y

Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

- Y bydd y datganiadau yn mynd ymlaen i gael eu hadolygu gan Archwilio Cymru, sef archwilwyr allanol y Bwrdd Uchelgais, ac y bydd y cyfrifon terfynol, ynghyd ag adroddiad yr archwilwyr, yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn ystod yr hydref.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon Drafft y BUEGC (yn amodol ar archwiliad) am 2022/23.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nid oes gofyn statudol i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyd-bwyllgor, ond ystyrir bod cyflwyno'r datganiad drafft er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.

Bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn terfynol ar ôl derbyn adroddiad Archwilio Cymru, ond mae cyflwyno'r fersiwn ddrafft rŵan yn gyfle i aelodau'r Bwrdd ystyried y cynnwys a holi swyddogion ariannol am y cynnwys. Mae hyn yn gyfle i'r aelodau arfogi eu hunain gyda gwybodaeth berthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

**TRAFODAETH**

Diolchwyd i'r Swyddog Cyllid Statudol a'i dîm am y gwaith.

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 -Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

**Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiad ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r ymgeiswyr ac yn tanseilio hyder rhai eraill i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau yma, mae'r mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.**

**8. CYLLID Y CYNLLUN TWF: PROSES NEWID PROSIECTAU – ARGYMHELLION TERFYNOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau).

**PENDERFYNWYD**

1. **Cefnogi'r argymhelliad i'r prosiectau a ganlyn gael gwahoddiad i ymuno â phortffolio'r Cynllun Twf, yn ddarostyngedig i gytundeb ariannwr y prosiect i'r amodau a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad:**

- **Prosiect Antur Cyfrifol gan Zip World - dyraniad amodol o £6.2m**
- **Prosiect Stiwdio Cinmel gan Stage Fifty - dyraniad amodol o £6.8m**
- **Prosiect Hwb Hydrogen Caergybi gan Menter Môn - dyraniad amodol o £3.8m**
- **Prosiect Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy gan The Circular Economy Ltd - dyraniad amodol o £6.4m**
- **Prosiect Porth Wrecsam gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - dyraniad amodol o £4.79m**.

2. **Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio a'r Swyddog Monitro i gadarnhau amodau gydag arianwyr y prosiectau ac ymrwymo i Femorandwm o Ddealltwriaeth (MOU) gydag ariannwr pob prosiect yn cadarnhau'r gofynion a'r disgwyliadau yn ymwneud â Chyllid y Cynllun Twf.**

3. **Nodi nad yw gwahodd prosiect i ymuno â'r Cynllun Twf yn benderfyniad i fuddsoddi yn y prosiect. Yn unol â'r broses arferol i gael mynediad at gyllid, bydd gofyn i'r holl brosiectau gynhyrchu achos busnes i'w ystyried gan y Bwrdd.**

4. **Dyrannu £350,000 ychwanegol o gyllid y Cynllun Twf i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio, drwy gynyddu cyfraniad cyffredinol y Cynllun Twf o 2% i 2.15%.**

5. **Nodi argymhellion y rhestr wrth gefn cychwynnol fel y nodir yn Atodiad D i'r adroddiad a gwneud cais i'r Cyfarwyddwr Portffolio gyflwyno papur mewn cyfarfod yn y dyfodol yn cadarnhau'r argymhellion.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen gwneud penderfyniad ar ôl cwblhau'r broses prosiectau newydd.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.30 y.b.

**CADEIRYDD**